## GORCHYMYN CEFNFFORDD YR A470 (MAENAN, BWRDEISTREF SIROL CONWY) (GWAHARDD CERBYDAU MAWR DROS DRO) 2026

Mae Gweinidogion Cymru wedi gwneud Gorchymyn o dan adran 14 o Ddeddf Rheoleiddio Traffig Ffyrdd 1984. Mae angen y Gorchymyn er mwyn gwneud gwaith ar gefnffordd yr A470, neu gerllaw iddi, ym Maenan, Bwrdeistref Sirol Conwy.

Effaith y Gorchymyn yw gwahardd dros dro gerbydau sy'n 3.0, 3.2 neu 3.65 metr o led neu fwy rhag mynd ar y darn o gefnffordd yr A470 sy'n ymestyn o'i chyffordd â'r fynedfa i'r Maenan Abbey Hotel hyd at ei chyffordd â'r fynedfa i safle gwersylla Erw Las.

Y llwybr arall ar gyfer cerbydau sy'n teithio tua'r gogledd yw mynd ar yr A470 tua'r de i Fetws-y-coed, yr A5 tua'r gogledd-orllewin i Gyffordd 11 yr A55 (Cyfnewidfa Llys y Gwynt), yr A55 tua'r dwyrain i Gyffordd 19 (Glan Conwy) a'r A470 tua'r de: i'r gwrthwyneb ar gyfer cerbydau sy'n teithio tua'r de.

Daw'r Gorchymyn i rym ar 1 Mehefin 2026. Disgwylir y bydd y gwaharddiad dros dro yn weithredol o 07:00 o'r gloch ar 1 Mehefin tan 23:59 o'r gloch ar 31 Gorffennaf 2026, neu hyd nes y caiff yr arwyddion traffig dros dro eu symud ymaith yn barhaol. Bydd yr arwyddion traffig yn dangos pa gyfyngiad ar led cerbydau sydd mewn grym ar unrhyw adeg benodol.

Dim ond yn ystod y cyfnod a bennir uchod y disgwylir i'r Gorchymyn fod yn weithredol. Er hynny, bydd yn parhau'n ddilys am gyfnod o 18 mis ar y mwyaf rhag ofn y bydd angen ailamserlennu'r gwaith neu wneud gwaith canlyniadol neu waith arall. Bydd hysbysiad am unrhyw newidiadau i'r amseroedd a'r dyddiadau yn cael ei arddangos cyn gwneud unrhyw waith a ailamserlennir.

Gellir gweld copi o'r Gorchymyn a'r Hysbysiad ar wefan Llywodraeth Cymru ar https://llyw.cymru/gorchmynion-ffyrdd.

**Gellir cael copi print bras o'r Hysbysiad hwn oddi wrth: Y Gangen Orchmynion, Trafnidiaeth, Llywodraeth Cymru, Parc Cathays, Caerdydd CF10 3NQ.**

**C WYNN**
Trafnidiaeth
Llywodraeth Cymru

## THE A470 TRUNK ROAD (MAENAN, CONWY COUNTY BOROUGH) (TEMPORARY PROHIBITION OF LARGE VEHICLES) ORDER 2026

The Welsh Ministers have made an Order under section 14 of the Road Traffic Regulation Act 1984, which is necessary to undertake works on or near the A470 trunk road at Maenan, Conwy County Borough.

The effect of the Order is to temporarily prohibit vehicles of or over 3.0, 3.2 or 3.65 metres wide from proceeding on the length of the A470 trunk road that extends from its junction with the entrance to the Maenan Abbey Hotel to its junction with the entrance to Erw Las campsite.

The alternative route for northbound vehicles is via the southbound A470 to Betws-y-Coed, north-westbound A5 to the A55 Junction 11 (Llys y Gwynt Interchange), eastbound A55 to Junction 19 (Glan Conwy) and southbound A470: vice versa for southbound vehicles.

The Order comes into force on 1 June 2026. The temporary prohibition is expected to operate from 07:00 hours on 1 June until 23:59 hours on 31 July 2026, or until the temporary traffic signs are permanently removed. The traffic signs will show which width restriction is in force at any given time.

Although the Order is only expected to operate during the period specified above, it will remain valid for a maximum period of 18 months, as a contingency, should the work need to be rescheduled or consequential or other work is required. Notice of any changes to times and dates will be displayed before any rescheduled work begins.

A copy of the Order and Notice can be viewed on the Welsh Government's website at https://gov.wales/road-orders.

**A copy of this Notice in larger print can be obtained from Orders Branch, Transport, Welsh Government, Cathays Park, Cardiff CF10 3NQ.**

**C WYNN**
Transport
Welsh Government